

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu - Gofal
Dyddiad	Medi 13eg, 2018
Aelod Cabinet	Cynghorydd Dilwyn Morgan
Teitl	Gwasanaethau Awtistiaeth ar gyfer Plant

1. Cyflwyniad

1.1 Derwen (Tim Integredig Plant anabl)

Fel y mae'r aelodau yn ymwybodol gwasanaeth integredig ar gyfer plant anabl yw Derwen wedi ei selio ar gytundeb ffurfiol Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 - Cytundeb Partneriaeth.

1.2 Mae'r tîm integredig yn cynnwys Seicolegwyr Clinigol, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddog Gofal Cwsmer a Dyletswydd, a Gwasanaethau Cefnogol sydd oll yn gweithio gyda plant anabl, gan gynnwys nifer helaeth o blant anabl gydag awtistiaeth.

2. Awtistiaeth

2.1 Dros y blynyddoedd olaf mae pwyslais helaeth wedi ei roi ar anghenion plant ac oedolion gydag awtistiaeth dros Gymru. Mae hyn yn gadarnhaol i'r grŵp yma, ond mae'n bwysig nodi fod nifer uchel o blant eraill sy'n derbyn gwasanaeth lle nad oes yr un pwyslais na'r un adnoddau wedi eu neilltuo ar eu cyfer, ond lle gall yr angen fod yr un mor ddwys. Mae'n bwysig wrth drafod anghenion plant anabl i gydnabod anghenion yn eu cyfanrwydd ac nid canolbwyntio ar un grŵp ar wahân.

2.2 (i) Gwasanaeth Niwroddatblygiadol

Dros y tair blynedd olaf bu cryn egni i sefydlu gwasanaeth Niwroddatblygiadol ar gyfer plant gydag awtistiaeth ar draws Cymru. Bwriad y datblygiad oedd sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau ar gyfer y plant oedd yn cael eu cyfeirio at wasanaethau plant anabl ac i CAMHS (Gwasanaeth Iechyd Meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc) ar gyfer eu hasesu, ac i ddod a'r rhestr aros i lawr a chynnig peth ymyrraeth. Oherwydd y diffyg adnoddau ddaeth yn sgil hyn, ni ellir gweld cysondeb ar draws Gogledd Cymru i ffurf y gwasanaeth. Yn anffodus, mae'r rhestrau aros yn hirach, trosglwyddwyd peth o adnoddau o'r gwasanaethau ar gyfer plant anabl i'r gwasanaeth newydd sy'n cael effaith ar Derwen, ac mae unrhyw ymyrraeth yn ddibynnol ar gyllid grant byr dymor. Yn gadarnhaol, mae hyn yn golygu fod pob cyfeiriad am asesiad am awtistiaeth yn mynd i'r un gwasanaeth ac yn cael eu cyfeirio ymlaen i Derwen os yn blentyn anabl. Yn y gorffennol 'roedd pob plentyn dan 5 yn dod i Derwen am asesiad ond os nad oedd ganddynt anabledl dysgu nid oeddent yn aros ar agor i'r tîm wedyn a gallai hyn arwain i gwynion ar adegau. Un diffyg o ran y gwasanaeth Niwroddatblygiadol yw mai staff gwasanaeth Iechyd yn unig sydd wedi eu cyflogi / secondio iddo ac mai ychydig iawn o amser sydd gan Addysg i gyfrannu

i'r drefn. Nid oes gweithiwr cymdeithasol yn rhan o'r gwasanaeth sy'n golygu nad yw'r teuluoedd yn cael asesiad gofalwyr ayb.

2.2 (ii) Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Datblygiad arall sydd wedi dod o adran wahanol o Lywodraeth Cymru yw'r gwasanaeth yma ac wedi ei ddatblygu yn bennaf ar gyfer ymateb i anghenion oedolion, ond hefyd yn cynnig gwybodaeth a chynghor i deuluoedd plant. Mae'r gwasanaeth yn ei ddyddiau cynnar ac felly mae'n anodd dweud beth yn union fydd ei effaith i deuluoedd plant anabl. Ychydig iawn o ymgynghori fu gyda'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol wrth ei sefydlu.

2.3 Newidiadau dros y blynyddoedd.

O brofiad helaeth o weithio yn y maes mae awtistiaeth yn dod yn fwy amlwg a'r gofyn yn fwy. Bellach nid yw'n anghyffredin i gael teuluoedd lle mae dau ac weithiau tri phlentyn yn cael eu hasesu i fod gydag awtistiaeth ac anabledd dysgu. Gyda rhai o'r plant a phobl ifanc hyn gwelir ymddygiad heriol iawn a chyflyrau cysylltiedig megis Pica yn cymhlethu'r gofal.

3 Ymyrraeth a datblygiadau gan Derwen.

3.1 Gwasanaethau craidd y tîm

Gall teulu plentyn gydag awtistiaeth sydd yn cael ei gyfeirio at Derwen ddisgwyl cael yr un gwasanaethau ac a gynigir i unrhyw deulu arall sydd ar agor i'r tîm gan y proffesiynau amrywiol.

3.2 Swyddog Dyletswydd a Gofal Cwsmer

Yn y lle cyntaf bydd y swyddog hwn yn cynnal asesiad o angen ar y pryd, yn cynnig asesiad gofalwr ar wahan os dymunir, yn arwain a chefnogi'r teulu trwy'r drefn Cynllunio Cyntaf er mwyn llunio Cynllun Cefnogi Gofal Cyntaf ac yn cyfeirio ymlaen pan fo angen i broffesiynau eraill o fewn y tîm. Os oes rhestr aros bydd yn cynnal rôl gofal cwsmer o gadw mewn cyswllt gyda'r teulu tra maent yn aros ac yn rhoi gwybodaeth a chynghor iddynt, ac yn eu cefnogi fel bo'r angen .

3.3 Seicolegwyr Clinigol

Cyn datblygiad y gwasanaeth Niwroddatblygiadol byddai plentyn lle mae'r cwestiwn o awtistiaeth yn codi wedi eu cyfeirio at y seicolegwyr am asesiad trylwyr. Bu i'r tîm yn y cyfnod hwn ddatblygu'r ymyrraeth PACT (Pre Autism Communication Therapy) trwy wneud defnydd o grantiau megis Teuluoedd yn Gyntaf, a cheir adroddiadau ffafriol iawn gan deuluoedd fu'n defnyddio'r ymyrraeth gyda'u plentyn. Yn sgil hyn datblygwyd pecyn "Ga i ymuno â Chdi" gan un o'r tîm sy'n becyn dwyieithog ar gael i deuluoedd a staff rheng flaen i'w cynorthwyo i ddeall a datblygu eu dulliau cyfathrebu gyda phlentyn. Cafodd y pecyn yma wob'r yng ngwobrau Cymraeg lechyd a Gofal. Erbyn hyn mae'r ymyrraeth PACT ynghyd â Therapi Cerddoriaeth Ryngweithiol yn cael ei ariannu drwy dîm bychan IMPACT dan grant ICF (Intermediate Care Fund), ac ar gael i deuluoedd Derwen a'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol. Eleni mae'r tîm wedi symud ymlaen gan ddefnyddio grant Teuluoedd yn Gyntaf i weithio gyda pobl

ifanc anabl (yn cynnwys nifer gydag awtistiaeth) i edrych ar eu sgiliau unigol o ran eu datblygiad, ac i greu grwpiau ar gyfer y cwrs Blynyddoedd Rhyfeddol ASD ac Oediad Iaith i rieni. Mae nifer o fewn tîm Derwen wedi cael eu hyfforddi i gyd-redeg y cwrs. Yn ogystal bydd y seicolegwyr yn gwneud gwaith unigol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac yn cynghori, hyfforddi a chefnogi staff nifer o asiantaethau.

3.4 Nyrsio Cymunedol Plant

Mae'r nyrsys yn gweithio gyda nifer o blant yn cynnig ymyraethau ym meysydd cwsg, bwydo, chwarae, datblygu a thyfu fyny ar lefel unigol neu mewn grwpiau. Os oes achos o ddiogelu plentyn y maent yn gysylltiedig â hwy byddent yn rhan o'r drefn Diogelu Plant gyda'r teulu hefyd.

3.5 Gweithwyr Cymdeithasol

Mae'r gweithwyr Cymdeithasol yn ateb gofynion statudol perthnasol i wasanaethau plant gan weithio gyda phob elfen sy'n gysylltiedig â phlant anabl gan gynnwys plant gydag awtistiaeth. Byddant yn asesu ar gyfer angen cefnogaeth megis Gwasanaethau Cefnogol ac egwyl fer, yn rhoi cyngor a gwybodaeth i deuluoedd, ac yn cario allan dyletswyddau diogelu plant, gwaith llys, a chyswllt. Yn ogystal mae'r gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda phlant anabl sydd mewn gofal, gan gynnwys paratoi at adolygiadau plant mewn gofal a threfnu amser cyswllt gyda'r rhieni a'r brodyr a chwiorydd. Mae'r elfen yma yn gallu golygu bod y gweithiwr angen teithio'n bell gan fod yna cyn lleiad o leoliadau cofrestredig ar gael i blant anabl yn lleol. Mae'r dyletswyddau hyn oll ar gyfer pob plentyn anabl ond yn cynnwys plant gydag awtistiaeth

3.6 Gwasanaethau Cefnogol

Yn dilyn asesiad gan weithiwr proffesiynol o fewn Derwen daw cyfeiriadau i'r gwasanaeth all amrywio o fewnbnw i Grŵp Ieuenctid neu Gynllun Haf, i ychydig oriau o wasanaeth cefnogol un i un, i becyn helaeth o oriau cefnogol. Dros y blynyddoedd olaf mae nifer o blant gydag awtistiaeth ac ymddygiad heriol iawn wedi eu cefnogi yn eu cartrefi gan y gwasanaeth. I wneud hyn mae angen hyfforddiant arbenigol, offer arbenigol a llawer o gefnogaeth i'r gweithwyr cefnogol unigol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu i 3 achos gostio £43,993 i'r gwasanaeth. Yn ogystal datblygwyd Gweithwyr Cefnogi Teulu fel rhan o'r ymyrraeth i edrych ar allbynnau penodedig mesuradwy.

4. Egwyl fer

4.1 Hafan y Sêr

Yn ystod y flwyddyn hon agorwyd yr Uned Egwyl Fer hon sy'n gam ymlaen i ddechrau cyfarfod rhai o'r gofynion egwyl fer sydd wedi aros cyhyd. Mae nifer o blant anabl gydag awtistiaeth yn derbyn gwasanaeth egwyl fer yn yr uned neu ar y rhestr aros i gael gwasanaeth.

4.2 Gofal gyda theulu

Prin iawn yw'r adnodd hon ond mae ymdrech ar y cyd gydag Ynys Môn i geisio datblygu a chreu ymwybyddiaeth o'r angen am ofalwyr egwyl fer ar gyfer plant anabl. Mae hyn yn cynnwys plant gydag awtistiaeth ac anabledd dysgu.

5. Diffygion

5.1 Ateb anghenion plant gydag awtistiaeth ond heb anabledd dysgu.

Fel y nodwyd eisoes, mae anghenion plant anabl gydag awtistiaeth ac anabledd dysgu yn cael eu hasesu a'u cyfarfod yn rhannol gan Derwen yn ogystal ag asesu anghenion eu gofalwyr. Fodd bynnag, lle nad oes anabledd dysgu, ar hyn o bryd nid oes ymyraethau na Gwasanaethau Uniongyrchol ar wahân i asesu am ddiagnosis, addysg, ac ymyraethau drwy grant ar gael i'r teuluoedd hyn. Mae angen pendant i sefydlu trefn i asesu anghenion gofalwyr a chynnig peth ymyrraeth gefnogol ar eu cyfer

5.2 Amser Seicolegwyr Clinigol

Oherwydd bod yr adnodd yma mor fechan o fewn y Bwrdd Iechyd a'r asesu yn dibynnu yn rhannol arnynt fel proffesiwn, mae'r rhestrau aros yn gallu bod dros flwyddyn. Nid yw hyn yn dderbyniol i deuluoedd plant bychain sy'n bryderus am gyflwr eu plentyn.

5.3 Adnoddau egwyl fer

Yn ogystal â'r hyn a nodir uchod mae peth gwasanaeth Cefnogol a Thaliadau Uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio ond mae diffyg amlwg o ran adnoddau i ddatblygu ymhellach. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi derbyn lleihad yn eu cyllid drwy broses Her Gwynedd ac mae hyn yn cael effaith ar yr hyn sydd yn bosib i'w gynnig i blant anabl gan gynnwys plant gydag awtistiaeth.